

EMRTS Cymru

Gwasanaeth Casglu a
Throsglwyddo Meddygol Brys



ELUSEN AMBIWLANS AWYR CYMRU
WALES AIR AMBULANCE CHARITY



27 Ebrill 2015
26 Ebrill 2016

Adroddiad Blynyddol
EMRTS Cymru

Cynnwys

Adran 1 – Cyflwyniad

Rhagair – Dr Dindi Gill, Cyfarwyddwr Cenedlaethol Dros Dro EMRTS Cymru.....	5
Ein Cenhadaeth.....	6
Ein Gweledigaeth.....	6
Ein Gwasanaeth.....	6

Adran 2 – Llywodraethu

Strwythur a Phersonél Llywodraethu.....	8
---	---

Adran 3 – Ein Cyllid

Datganiad Ariannol EMRTS Cymru.....	9
-------------------------------------	---

Adran 4 – Gwybodaeth Ychwanegol

Data Cychwynnol Perfformiad y Flwyddyn Gyntaf (27/04/15 – 27/04/16).....	10
Llwyddiannau'r Flwyddyn Gyntaf.....	13
Edrych i'r Dyfodol.....	15
Elin Partner – Elusen Ambiwlans Awyr Cymru.....	16





Adran 1

CYFLWYNIAD

Rhagair y Cyfarwyddwr

Er mwyn crynhoi sut y daethom i'r fan hon, cymeradwywyd y Rhaglen Amlinellol Strategol ar gyfer creu'r Gwasanaeth Casglu a Throsoglwyddo Meddygol Brys (EMRTS) Cymru ym mis Medi 2014. Diffiniodd y ddogfen arloesol hon y model clinigol, gweithlu a gweithredol a ffefrir wrth symud ymlaen, yn ogystal â chyfrwng a gweledigaeth tymor hir y gwasanaeth. Yn dilyn cymeradwyo dau Achos Cyfiawnhau Busnes ym mis Rhagfyr 2014, fe aeth EMRTS Cymru yn fyw ar 27 Ebrill 2015, gan fodloni'r amserlen amcanol ar gyfer cyflenwad. Dathlodd y Gwasanaeth ei ben-blwydd yn flwydd oed yn "Retrieval 2016," gan dderbyn adborth cadarnhaol yn y gynhadledd ryngwladol hon a gynhaliwyd gan ein cydweithwyr yn yr Alban.

Fel y disgrifir yn yr adroddiad blynyddol hwn, mae EMRTS Cymru wedi bodloni'r fanyleb gwasanaeth gytunedig gan gynnwys model gwasanaeth clinigol llawn o ganolfannau'r Gwasanaeth yn Abertawe a'r Trallwng, yn gweithredu deuddeg awr y dydd a saith dydd yr wythnos. Wrth sefydlu gwasanaeth clinigol newydd, mae'n angenrheidiol datblygu prosesau o lywodraethu ac atebolrwydd rhwng sefydliadau partner, ac yn ein blwyddyn gyntaf rydym wedi cael y cyfle i brofi ac arddangos cadernid y prosesau yn drylwyr. Cyflwynir y data gweithredol ar gyfer blwyddyn un yn ogystal, gyda detholiad o storiâu nodedig gan gleifion, ble mae'r gwasanaeth yn medru dangos newid arwyddocaol yn llwybr y claf. Yn olaf, mae'r adroddiad cyfredol yn darparu diweddariad ar ein safle ariannol (ar ddiwedd blwyddyn un) a pha ddatblygiadau sydd wedi eu cynllunio yn y dyfodol agos.

Darperir data ar sail canlyniadau yn erbyn ein hamcanion buddsoddi allweddol, sef cydraddoldeb, cynnydd mewn iechyd a chynaliadwyedd clinigol a sgiliau, yn y gwerthusiad annibynnol o'r gwasanaeth. Mae Prifysgol Abertawe yn ymgymryd â'r gwaith hwn a bydd ar gael yn hwyrach eleni. Bydd y gwaith gwerthuso yn allweddol er mwyn atgyfnerthu beth sydd wedi cael ei gyflawni ac er mwyn adlewyrchu ar unrhyw wersi y gellir eu dysgu o flwyddyn un. Ymhellach, bydd yn llywio unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol a sut bydd y rhain yn galluogi EMRTS Cymru i ddod yn wasanaeth 'hanfodol' yn nhirwedd gofal annisgwyl GIG Cymru.

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i'n sefydliad partner, Elusen Ambiwylans Awyr Cymru, sy'n parhau i fod yn hollol ddibynnol ar rodd-daliadau'r cyhoedd i gadw hofrenyddion Ambiwylans Awyr Cymru yn yr awyr. Rwy'n edrych ymlaen at barhau i gryfhau ein perthynas ym mlwyddyn dau'r gwasanaeth. Rwyf hefyd am ddiolch i'n cynhalwyr (Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg), Pwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru ac wrth gwrs ein timau gweithredol, hebddynt hwy ni fuaasai dim o hyn yn bosibl. Edrychaf ymlaen at symud EMRTS Cymru ymlaen gyda'n comisiynwyr newydd - y Pwyllgor Gwasanaeth Ambiwylans Brys.

Mae hi wedi bod yn flwyddyn gyntaf lwyddiannus ac mae'r gwasanaeth wedi mwynhau cefnogaeth ardderchog gan Lywodraeth Cymru a GIG Cymru.



Dr Dindi Gill

**Cyfarwyddwr Cenedlaethol Dros Dro,
EMRTS Cymru**

**Ymgynghorydd mewn Meddygaeth
Frys, Ysbyty Treforys**

Ein Cenhadaeth



Darparu gallu datblygedig i wneud penderfyniadau a gofal critigol ar gyfer achosion brys sy'n bygwth bywyd neu aelod o'r corff, sydd angen eu trosglwyddo i gael triniaeth sydd yn argyfyngus o ran amser mewn cyfleuster priodol.



Ein Gweledigaeth

Datblygwyd EMRTS Cymru gyda'r gred y bydd yn dod â chyfres o fuddion i Gymru, fel a ganlyn:

- Bydd EMRTS Cymru yn darparu cydraddoldeb mynediad i ofal critigol cyn ysbyty i bobl Cymru.
- Bydd EMRTS Cymru yn darparu cynnydd mewn iechyd drwy ymyrraeth gynnar (wedi eu darparu y tu allan i ymarfer parafeddyg arferol gan EMRTS Cymru) a throsglwyddiad uniongyrchol i ganolfan gofal arbenigol. Dylai hyn wella canlyniadau ymarferol y claf a chynyddu'r nifer o 'oerwsyr annisgwyl'.
- Bydd EMRTS Cymru yn darparu buddion ail-law i ysbytai ar draws Cymru. Bydd mwy o gleifion yn cael eu cymryd yn uniongyrchol i'r ganolfan fwyaf priodol gyda llai o ofynion am drosglwyddiadau eilradd a fuasai yn y gorffennol wedi cymryd personél arbenigol (megis anesthetyddion) oddi wrth yr ysbytai ac wedi creu cost ychwanegol ar gyfer Gwasanaeth Ambiwylans Cymru.
- Bydd EMRTS Cymru yn darparu cynladwyedd clinigol a sgiliau yng Nghymru. Bydd EMRTS yn cefnogi'r gwaith o recriwtio ymgynghorwyr a CCP i mewn i Gymru drwy gynnig cyfleoedd gyda'r Gwasanaeth wrth recriwtio am swyddi priodol gyda GIG Cymru. Bydd EMRTS Cymru hefyd yn cefnogi gweithgareddau addysgiadol ar draws GIG Cymru.

Ein Gwasanaeth

Mae EMRTS Cymru yn weithredol saith niwrnod yr wythnos rhwng 08:00awr a 20:00awr o ganolfannau Elusen Ambiwylans Awyr Cymru yn Abertawe (Dafen ers Mehefin 2016) a'r Trallwng.





Services offered include:

- Gofal critigol cyn ysbyty ar gyfer pob grŵp oedran (h.y. unrhyw ymyrraeth/benderfyniad sy'n digwydd y tu allan i ymarfer parafeddyg arferol).
- Ymgymryd â throsglwyddiadau oedolion a phediatrig sydd yn argyfyngus o ran amser ac yn bygwth bywyd neu aelod o'r corff, o ganolfannau mylol (gan gynnwys Adrannau Brys, Unedau Asesu Meddygol, Unedau Gofal Dwys, Unedau Mân Anafiadau) ar gyfer cleifion sydd angen ymyrraeth arbenigol yn yr ysbyty sy'n eu derbyn.

Yn ychwaneg, mae'r Gwasanaeth yn fodd o wella gofal critigol cyn geni a chyn ysbyty i famau (ar gyfer esgor yn y cartref ac esgor mewn Unedau Rhydd-sefyll Dan Arweiniad Bydwagedd ill dau). Mae hyn yn cynnwys:

- Trosglwyddo timau cyn geni i achosion argyfyngus pell drwy'r awyr.
- Cynorthwyo unedau bydwagedd ac esgor yn y cartref drwy sefydlu'r newydd-anedig a'r menywod sydd â phroblemau sy'n bygwth bywyd a'u trosglwyddo i uned esgor dan arweiniad ymgynghorwr.

Yn olaf, mae'r Gwasanaeth yn darparu amrywiaeth o swyddogaethau mewn digwyddiadau mawr neu ddigwyddiadau anafiadau torfol ac, am y tro cyntaf yng Nghymru, ymgynghorydd meddygol strategol sydd ar gael 24 awr y dydd, saith niwrnod yr wythnos. Teitl yr ymgynghorydd hwn yw'r ymgynghorydd cyflenwi oddi uchod.

Pan nad yw hofrenyddion Elusen Ambiwllans Awyr Cymru yn medru hedfan oherwydd y tywydd, mae gan EMRTS Cymru fynediad i fflyd o Gerbydau Ymateb Cyflym (RRVs). Mae pump Audi Q7 wedi eu trosi i fod yn gerbydau ymateb brys â'r offer diweddaraf sydd wedi eu dylunio i alluogi'r tîm i gyrraedd lleoliad argyfwng meddygol, ar y ffordd, cyn gynted â phosibl. Mae'r cerbydau hyn wedi eu lleoli drwy bob rhan o Gymru. Mae'r cyfarpar meddygol wedi ei dylunio i fod yn ymgynghoriadol rhwng hofrenyddion yr elusen a'r Cerbydau Ymateb Cyflym.

Mae'r Gwasanaeth yn sicrhau fod gan 95% o boblogaeth Cymru fynediad at ofal dan arweiniad doctor o fewn 30 munud drwy'r awyr a bod gan 46% o boblogaeth Cymru fynediad at hyn o fewn 30 munud ar y ffordd.

Cydlynir EMRTS Cymru a'i roi ar waith drwy'r Ddesg Cymorth Awyr (ASD) sydd wedi ei leoli ym mhencadlys Gwasanaeth Ambiwllans Cymru yng Nghwmbrân.

Adran 2

LLYWODRAETHU


Strwythur a Phersonél Llywodraethu

Mae EMRTS Cymru wedi datblygu system gadarn o lywodraethu cyfundrefnol a chlinigol. Cynhelir y Gwasanaeth gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (BI PABM) ac fe'i comisiynwyd yn wreiddiol gan Bwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru (WHSSC). Mae'r strwythur llywodraethu cyfundrefnol yn cynnwys Grŵp Sicrwydd Cyflenwi EMRTS (DAG) sy'n eistedd fel is-bwyllgor o WHSSC. Mae'r DAG yn gyfrifol am gyflwyniad, cyfeiriad a pherfformiad y

Gwasanaeth. Mae Cyfarwyddwr Cenedlaethol EMRTS Cymru yn atebol i'r DAG am gyflwyniad a pherfformiad y Gwasanaeth ac i Brif Weithredwr BI PABM am lywodraethu cyfundrefnol a chlinigol.

Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 27 Ebrill 2015 – 26 Ebrill 2016. Ers 1 Ebrill 2016 trosglwyddwyd y cyfrifoldebau comisiynu i'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys (EASC). Bydd y DAG yn awr yn eistedd fel is-bwyllgor o'r EASC.

Dangosir y strwythur cyfundrefnol isod:



Arweinir llywodraethu mewnol gan Fwrdd Clinigol a Gweithredol EMRTS, a fynychir gan uwch weithwyr EMRTS a gwasanaethau cymorth, ac mae'n rheoli materion clinigol a gweithredol sy'n perthnasu i'r Gwasanaeth. Mae'r grŵp hwn wedi cwrdd yn fisol. Ymhellach, mae yna Grŵp Llwybr Anadlu (sy'n perthnasu â'r anesthetigion brys mae'r gwasanaeth yn eu darparu) a Grŵp Cyfarpar sy'n adrodd i'r bwrdd.

Mae'r Grŵp Ymgynghorol Clinigol Allanol yn cynnwys aelodaeth o Rhwydweithiau Trawma Rhanbarthol, Anesthesia/Gofal Critigol, Meddygaeth Frys, Llawfeddygaeth Aciwt, Cyn Geni/Pediatreg ac Uwch-arbenigwyr Gofal Critigol a Chasglu Cyn Ysbyty. Mae'r grŵp hwn yn adrodd wrth Fwrdd Clinigol a Gweithredol EMRTS ac yn archwilio perfformiad clinigol y gwasanaeth ac adolygiad annibynnol gan gydweithwyr o ddigwyddiadau niweidiol difrifol.

Yn ystod y flwyddyn gyntaf defnyddiwyd y prosesau llywodraethu yn effeithiol i greu amgylchedd o dryloywder, dysgu a gwelliant.

Adran 3

EIN CYLLID

Datganiad Ariannol EMRTS Cymru

Fe wnaeth EMRTS Cymru gwrdd â'i darged ariannol yn 2015/16 drwy draddodi gwaged cymedrol o £0.169m yn erbyn ei ddyraniad ariannu referiw o £2.868m gan WHSSC.

Symudir y gwaged ymlaen i mewn i 2016/17 i gynnal cyflwyniad parhaus y gwasanaeth.

Mae'r dyraniad cyfalaf ar gyfer sefydlu a gweithredu wedi ei ymrwymo'n llawn.



Adran 4



GWYBODAETH YCHWANEGOL

Data Cychwynol Perfformiad y Flwyddyn Gyntaf (27/04/15 – 27/04/16)

(Ffynhonnell – adroddiad gweithredol Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru a set ddata EMRTS Cymru)

Cyfanswm y Cleifion a Ddefnyddiodd y Gwasanaeth - 1285

Awyr
Cerbyd Ymateb Cyflym




Rhyw
Gwryw
Benyw

Ystod Oedran
0-97



Map Cenhadaeth



Lleoliadau'r Digwyddiadau yn ôl Bwrdd Iechyd

Abertawe Bro Morgannwg	23%
Aneurin Bevan	10%
Betsi Cadwaladr	14%
Caerdydd a'r Fro	7%
Cwm Taf	7%
Hywel Dda	18%
Lloegr	2%
Powys	19%

Achosion yn ôl Categori

Categori	
Damwain Traffig	29%
Ataliad y Galon	16%
Trawma Arall	14%
Meddygol Arall	14%
Cwmpïadau	12%
Trosglwyddo a Derbyniadau at Weithwyr Iechyd Proffesiynol	8%
Poen yn y Frest	6%
Mamolaeth/Cyn Geni	1%



47
Trallwysiadau
Cynnyrch Gwaed

Cyrchnodau Cleifion

Gadawyd 19% o'r holl gleifion yn y gymuned. Aeth yr 81% sydd dros ben i ysbytai o fewn y byrddau iechyd canlynol:

Abertawe Bro Morgannwg	26%
Ymddiriedolaethau GIG yn Lloegr	24%
Caerdydd a'r Fro	21%
Hywel Dda	9%
Betsi Cadwaladr	8%
Aneurin Bevan	6%
Cwm Taf	5%
Powys	1%

Cyflwynir adroddiad llawn gan gynnwys dadansoddiad ystadegol manwl ym mhapur Gwerthuso Gwasanaeth EMRTS Cymru sydd i'w gyhoeddi yn Hydref 2016.



Storïau Llwyddiant y Flwyddyn Cyntaf

Cyhoeddi Hofrenyddion Modern Newydd

Ym mis Mawrth 2016 cyhoeddodd Elusen Ambiwlans Awyr Cymru y byddai'n cyflwyno fflyd newydd sbon o hofrenyddion sydd wedi eu creu yn bwrpasol ac a fydd yn gwella gweithrediadau yn sylweddol. Bydd y tri hofrennydd Airbus H145 yn cael eu lansio ym mis Ionawr 2017, wedi eu cyflenwi gan y gweithredwr hofrenyddion, Babcock International Group.

Elusen Ambiwlans Awyr Cymru ac EMRTS Cymru fydd ond y trydydd gweithrediad HEMS (gwasanaeth meddygol brys trwy hofrennydd) yn y DU i ddefnyddio'r hofrennydd H145 newydd.

Gyda chyfarpar ar gyfer hedfan yn y nos, bydd yr uwchraddiad hwn yn symud y gweithrediad gam yn agosach i'w nod o ddarparu gwasanaeth ambiwlans awyr 24-awr. Bydd yr hofrennydd newydd yn cynnig galluoedd trosglwyddo gwell a bydd caban mwy yn golygu mwy o le ar gyfer triniaethau yn yr awyr a mwy o le i hyfforddi. Mae peiriannau mwy pwerus yn golygu cyflymder teithio cyflymach ac amser hedfan hirach cyn bod rhaid ail-lenwi â thanwydd.

Hefyd, am y tro cyntaf, bydd meddygon EMRTS Cymru yn medru anfon gwybodaeth gritigol am gleifion i feddygon sy'n aros yn yr ysbytai drwy gysylltiad rhynggrwyd cyflymder-uchel o fewn yr hofrennydd.



Datblygiadau Arloesol y Gwasanaeth

Yn ystod ei ddeuddeg mis cyntaf o weithredu, mae EMRTS Cymru wedi cyflwyno nifer o ddatblygiadau newydd i'r amgylchedd HEMS. Mae hyn yn cynnwys:

- Y gwasanaeth cyntaf yn y DU i gario ystod o gynhyrchion gwaed gan gynnwys ffactorau ceulo (pedair uned o waed, plasma wedi ei rewi'n ffres, ffibrinogen a phrothrombin cymhleth crynodedig).
- Mae'r Gwasanaeth yn cario'r offerynnau profi pwynt gofal diweddaraf gan gynnwys dadansoddwyr nwy gwaed symudol a sganwr uwchsain. Mae'r rhain yn sicrhau fod cleifion yn derbyn y lefel uchaf o ofal y tu allan i amgylchedd yr ysbyty.
- Bydd y Gwasanaeth yn cyfrannu data at gronfa ddata Cyswllt Data Dienw Prifysgol Abertawe (SAIL). Mae'r system cyswllt data dienw hwn o'r radd flaenaf ac mae'n dod â'r ystod ehangaf bosibl o ddata a gasglir yn rheolaidd at ei gilydd yn ddiogel ar gyfer ymchwil, datblygiad a gwerthusiad. Bydd yn hwyluso'r gwaith o wella ansawdd y gwasanaeth hwn yn barhaus, a gwasanaethau tebyg o gwmpas y byd.
- Mae'r Gwasanaeth wedi cyflwyno cyfarpar cyfathrebu gwydn a diogel sy'n cynnwys rhaglen ffôn symudol ddeallus, gan roi gwybodaeth am wasanaethau ysbyty a chynnig cyfarwyddyd ar ystod o driniaethau meddygol i feddygon EMRTS Cymru.
- Mae'r Gwasanaeth yn defnyddio peiriannau anadlu newydd gyda thechnoleg uwch sydd wedi eu creu i weithio ar gyfer pobl o bob oedran, o blant ifanc gleifion hyn.

Diddordeb Rhyngwladol

Dangoswyd diddordeb rhyngwladol yn EMRTS Cymru gyda chydweithwyr o bob ban y byd yn edrych ar bosibilrwydd cyflwyno gwasanaeth tebyg. Mae wedi derbyn ymweliadau gan feddygon o Ogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon tra bod cydweithwyr o Seland Newydd a Gogledd America wedi dangos diddordeb pellach. Cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2016 bod meddygon yng Ngogledd Iwerddon wedi derbyn yr arian i sefydlu eu gwasanaeth eu hunain ac y byddai'n mabwysiadu'r "model Cymreig".

Mae meddygon EMRTS hefyd wedi derbyn gwahoddiadau i fynychu nifer o ddogwyddiadau a chynadleddau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol â phroffil uchel i siarad am ddatblygiad y gwasanaeth a'r cynnydd clinigol a wnaed.

Astudiaeth am Achos Dienw

ASTUDIAETH ACHOS 4

ASTUDIAETH ACHOS 1

Fe wnaeth EMRTS Cymru gyrraedd plentyn deg mlwydd oed a oedd mewn damwain ar y ffordd yng Ngogledd Cymru fel teithiwr mewn car teulu. Roedd ganddo anafiadau difrifol i'w ben ac fe dderbyniodd anesthetigion brys cyn cael ei drosglwyddo yn uniongyrchol i ofal arbenigol yn Alder-Hay, Lerpwl. Ers hynny mae wedi cael ei ryddhau gyda chanlyniad niwrolegol ffafriol.

Cyn EMRTS:

Pe bai EMRTS Cymru heb fod yno byddai cryn oedi wedi bod cyn rhoi anesthetig brys iddo a'i drosglwyddo i ofal niwrogritigol terfynol.

ASTUDIAETH ACHOS 2

Un o'r goroeswyr annisgwyl a oedd dan driniaeth y Gwasanaeth yng Nghanolbarth Cymru yw dyn sydd yn ei chwedegau a oedd yn rhan o ddamwain ddiwydiannol ddifrifol. Fe gollodd swm sylweddol o waed a dioddef ataliad y galon. Roedd angen yr ystod lawn o ymyraethau gofal critigol yma, gan gynnwys lliindagau (dyfais fecanyddol a ddefnyddir i gael rheolaeth dros dro dros gylchrediad y gwaed), trallwysiadau gwaed a phlasma, llawfeddygaeth i'w frest, anaesthesia a chyffuriau datblygedig. Sefydlogwyd ei gyflwr, ac fe'i cludwyd mewn hofrennydd i ofal arbenigol yn Ysbyty Brenhinol Stoke. Mae yn awr yn gwneud yn dda.

Cyn EMRTS:

Ni chlywyd erioed am y math yma o adfywiad ar gyfer cleifion a goroesi ataliad trawmatig ar y galon yng Nghymru cyn cyflwyniad EMRTS. Mae'n debygol iawn y byddai'r claf hwn wedi marw yn y fan a'r lle heb y gofal a dderbyniodd uchod.

ASTUDIAETH ACHOS 3

Galwyd EMRTS Cymru i Ysbyty Cyffredinol Rhanbarth De Cymru yn dilyn adroddiadau o ddyd anymwybodol a gyflwynwyd i'r uned mân anafiadau. Daeth y tîm gofal critigol i'r ysbyty drwy'r awyr, ac ar ôl asesiad cyflym, penderfynwyd anesthetigo a diogelu'r llwybrau awyr, ynghyd â phroffion gwaed pwynt gofal a monitro. Yna trosglwyddwyd y claf, ar y ffordd fawr, i ganolfan arbenigol ar gyfer profion pellach a gofal dwys. Mae'r achos hwn yn dangos rôl y Gwasanaeth wrth ddarparu ymateb brys i gyfleusterau gofal iechyd sydd heb anesthetig a gofal dwys preswyl.

Cyn EMRTS:

Ni fyddai'r staff yn y cyfleuster gofal iechyd wedi medru rheoli llwybrau awyr y claf yn ddigonol a buasai oedi wedi bod cyn bod rheolaeth lawn ganddynt dros y llwybrau awyr.

Ganwyd baban yn gynamserol mewn cyfeiriad preswyl yn Ne-ddwyrain Cymru. Canfu Ymarferydd Gofal Critigol ar y Ddesg Cymorth Awyr yr achos, ac oherwydd hynny roedd y tîm yn medru mynd i'r lleoliad drwy'r awyr, gan gario cyfarpar arbenigol, o fewn 30 munud. Erbyn iddynt gyrraedd roedd y baban wedi ei eni ac anogwyd ymyrraeth uwch mewn cysylltiad â CHANTS (Gwasanaeth Trosglwyddo Newyddenedigol Acíwt rhwng Ysbytai Cymru). Penderfynwyd dargyfeirio'r uned famolaeth agosaf a chymryd y newydd-anedig i'r Uned Ofal Dwys Newyddanedig briodol. Fe wnaeth hyn atal trosglwyddiad eilaidd a'r oedi cyn cael gofal o ganlyniad. Daethpwyd i ganlyniad clinigol ffafriol yn yr achos hwn.

Cyn EMRTS:

Byddai'r baban newydd-anedig wedi bod mewn cyflwr clinigol gwaeth heb yr ymyraethau uchod, a fyddai wedi cael effaith ar hyd yr arhosiad yn yr ysbyty a'r canlyniad.

ASTUDIAETH ACHOS 5

Mae EMRTS Cymru yn medru darparu cymorth ychwanegol i fyrddau iechyd er mwyn hwyluso trosglwyddiadau cymhleth lle mae amser o'r pwys mwyaf. Un o'r trosglwyddiadau hyn oedd dynes ifanc oedd mewn sioc cardiogenaidd (ble mae'r galon wedi ei niweidio i'r pwynt nad yw'n medru rhoi digon o waed i organau'r corff) ar ôl trawiad ar y galon. Roedd ganddi bwmp bal n aortaidd in situ, mewn ysbyty yn Ne Cymru, ac roedd angen ei throsglwyddo ar frys i ganolfan arbenigol yn Lloegr ar gyfer llawfeddygaeth bellach. Fe'i trosglwyddwyd dros y ffordd fawr gan gerbyd Gwasanaeth Ambiwllans Cymru gydag ymgynghorydd EMRTS Cymru a darlifiadydd (gweithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n defnyddio peiriant calon-ysgyfaint yn ystod llawfeddygaeth gardiaidd). Mae teulu'r claf yma wedi codi arian ar gyfer Elusen Ambiwllans Awyr Cymru ers hynny.

Cyn EMRTS:

Buasai'r tîm o fewn yr ysbyty wedi gorfod trosglwyddo'r claf eu hunain, a fyddai wedi tynnu staff anesthetig oddi wrth yr ysbyty am nifer o oriau ac felly wedi cael effaith sylweddol ar waith theatr brys.

Mae'r achosion uchod oll yn arddangos y cydraddoldeb a'r cynnydd mewn iechyd mae EMRTS yn ymdrechu i'w ddarparu

Edrych i'r Dyfodol

Canolfan Newydd i Dde Cymru

Ym Mehefin 2016, bydd gweithrediad Abertawe yn symud o'r ganolfan ym Maes Awyr Fairwood i faes awyr ac awyrendy pwrpasol newydd Elusen Ambiwylans Awyr Cymru yn Nafen yn Llanelli, drws nesaf i bencadlys yr Elusen. Bydd y cyfleuster newydd yma yn darparu nifer o fuddion gan gynnwys:

- ystafelloedd hyfforddi arbenigol yn galluogi efelychiadau bywyd go iawn a chyfleusterau fideo gynadledda ar gyfer gweithio gyda'n canolfannau eraill.
- lle yn yr awyrendy ar gyfer dau hofrennydd; ardaloedd storio wedi eu hadeiladu'n bwrpasol ar gyfer meddyginiaeth, cyfarpar clinigol a chit hedfan ar gyfer peirianwyr.
- cysylltiadau trafniadaeth gwell â'r M4 ar gyfer y Cerbydau Ymateb Cyflym.
- lles y staff – gydag ystafell briffio/dibriffio ar gyfer y criw, lle i gysgu (prawfesur ar gyfer gweithrediadau 24/7 yn y dyfodol) ac ystafell dawel.

Pedwerydd Hofrennydd

Mae Elusen Ambiwylans Awyr Cymru wedi buddsoddi mewn pedwerydd hofrennydd. Bydd yn weithredol yn hwyrach yn 2016, a bydd yn cynorthwyo'r gwaith o drosglwyddo a dychwelyd cleifion sydd ar hyn o bryd y tu allan i gwmpas EMRTS Cymru (e.e. casglu achosion newydd-anedig a phediatrig ar gyfer gofal dwys). Er hynny buasai hyn yn dal i fod o fewn fframwaith gweithredol y Gwasanaeth.

Gwerthuso'r Gwasanaeth

Mae'r gwaith wedi dechrau ar Werthusiad Gwasanaeth EMRTS Cymru wedi'i ysgrifennu'n annibynnol a fydd yn ffynhonnell gyfoethog o wybodaeth yn ymwneud â deuddeg mis cyntaf y Gwasanaeth, a'i ganlyniadau. Cyhoeddir hyn yn Hydref 2016.

Ehangu'r Gwasanaeth

Mae'r gwasanaeth presennol yn darparu gofal critigol a chasglu cyn-ysbyty o'i ganolfannau yn Abertawe a'r Trallwng, 12 awr y dydd, 7 dydd yr wythnos. Mae gan EMRTS Cymru'r potensial i ehangu ei weithrediadau os yw'r galw'n amlwg. Buasai hyn yn cynnwys gweithrediad 24/7 a chyflwyno EMRTS yn y ganolfan Ambiwylans Awyr Cymru yng Nghaernarfon. Os oes unrhyw achos am ehangu i'w gael disgwylir iddo fod yn amlwg o ganlyniad i Werthuso'r Gwasanaeth.



EIN PARTNER

ELUSEN AMBIWLANS AWYR CYMRU

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng EMRTS Cymru ac Elusen Ambiwllans Awyr Cymru?

Cyflenwir ein gwasanaethau drwy bartneriaeth bwysig.

Ymddiriedolaeth elusennol yw Ambiwllans Awyr Cymru sy'n dibynnu'n gyfan gwbl ar haelioni a chefnogaeth cyhoedd Cymru i helpu cadw'r hofrenyddion yn yr awyr. Nid yw'r Elusen yn derbyn arian yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru ac nid yw'n gymwys ar gyfer arian gan y Loteri Genedlaethol.

Mae EMRTS Cymru (Meddygon sy'n Hedfan Cymru), rhan o GIG Cymru ac sy'n cael eu cefnogi gan Lywodraeth Cymru, yn darparu tîm Gofal Critigol GIG wedi'u hyfforddi i safon uchel sy'n cynnwys:

- Ymgynghorwyr - o gefndir meddygaeth brys, anesthesia a gofal dwys.
- Ymarferwyr Gofal Critigol - gan gynnwys nyrsys a pharafeddygon.

Mae'r partneriaeth hon rhwng y GIG a'r Trydydd Sector yn arddangos buddion modelau traws-sector, a'r rôl bwysig mae elusennau yn medru eu defnyddio yn narpariaeth gofal iechyd.

Pwy yw Elusen Ambiwllans Awyr Cymru?

Elusen Ambiwllans Awyr Cymru yw'r gwasanaeth ambiwlans awyr swyddogol ar gyfer Cymru, a lansiwyd ar ddydd Gŵyl Dewi 2001. Maent barod i hedfan ar bob un dydd o'r flwyddyn, yn barod i helpu unrhyw un yng Nghymru pan maen nhw mewn trwl.

Mae pob cyrch yn cael ei osod yng Nghymru, drwy'r Ddesg Cymorth Awyr sy'n cael ei ariannu drwy Elusen, ar draws y strwythur GIG Cymru ddatganoledig.

Mae'r Elusen yn dibynnu'n gyfan gwbl ar rhodd-daliadau i godi £6 miliwn bob blwyddyn. Mae hyn yn ariannu'r isadeiledd a'r cyfleusterau ar gyfer y tair canolfan yn y Trallwng, Llanelli a Chaernarfon. Mae hefyd yn talu costau'r peilotiaid, y peirianwyr a pheth o'r cit meddygol. Mae'r Elusen yn ariannu'r hofrenyddion ac yn cynnal cytundeb hedfan gyda Babcock Mission Critical Services Ltd.

Mae'r dulliau cynhyrchu incwm yn amrywio o godi arian o fewn y gymuned a chefnogaeth gorfforaethol, i weithrediad manwerthu a masnachu cenedlaethol yn ogystal â Loteri Achub Bywyd.

Cenhadaeth yr Elusen

Ein cenhadaeth yw hwyluso'r broses o gynorthwyo pobl sydd yn sâl neu wedi eu hanafu, ac amddiffyn bywyd dynol, a hynny drwy ddarparu gwasanaeth ambiwlans awyr ar draws Cymru.

Gweledigaeth yr Elusen

Ein gweledigaeth yw darparu gweithrediad ambiwlans awyr 24 awr y dydd, ac i ymdrechu i sicrhau bod gwasanaeth ambiwlans awyr gwych ar gael i bawb yng Nghymru.

Ambiwllans Awyr Plant Cenedlaethol

Mae'r Elusen hefyd yn Ambiwllans Awyr Plant Cenedlaethol Cymru, gan awyrgludo rhai o gleifion ieuengaf Cymru.

Mae meddygon EMRTS Cymru, ac arbenigwyr GIG Cymru, yn gofalu am gleifion pediatrig a cyn geni tra eu bod ar yr hofrenyddion wrth eu trosglwyddo i ysbytai plant, yn ogystal â darparu cymorth awyr hanfodol pan maent yn ateb galwad 999 brys.

Dyfodol yr Elusen

Gweledigaeth yr Elusen yw darparu gweithrediad 24 awr y dydd ac i wella'r gwasanaeth yn barhaus. Mae'r strategaeth Ambiwllans Awyr Cymru yn cynnwys cynlluniau i:

- Ymestyn yr oriau gwasanaeth a datblygu galluedd hedfan drwy'r nos.
- Gwella sgiliau clinigol a chymorth dan arweiniad ymgynghorwyr ar gyfer y criwiau awyr.
- Datblygu Desg Cymorth Awyr yr Elusen.

Am fwy o wybodaeth am yr elusen, ymwelwch â:

www.walesairambulance.com



ELUSEN AMBIWLANS AWYR CYMRU
WALES AIR AMBULANCE CHARITY



ambwlansawyriblant.cymru
childrensairambulance.wales





Manylion Cyswllt

Gwefan www.emrts.wales.nhs.uk

E-bost emrts@wales.nhs.uk

Ffôn 0300 300 0057